**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Minister for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5010/24

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ebrill 2024

Annwyl Sarah,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o fy mwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024. ('Rheoliadau 2024').

Rwyf wedi cael llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn rhychwantu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir o dan:

- Erthyglau 72(3), 73(2), 76(4) a 105(6) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion ("y Rheoliad Iechyd Planhigion"), a;
- Erthyglau 22(2), 48(h), 54(3), 77(1), 90 a 144(6), a pharagraff 3(2) o Atodiad 6 i, Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, Iechyd planhigion a chynnyrch diogelu planhigion ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol").

Diben Rheoliadau 2024 yw rhoi ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith, sy'n dod i rym erbyn 30 Ebrill 2024, i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd. Mae'n cyflwyno cyfundrefn fewnforio fyd-eang newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd ("UE") a gweddill y byd ("RoW") o ddiwedd mis Ebrill 2024 ymlaen. Mae'r newidiadau a wneir gan Reoliadau 2024 yn ymwneud â rheolaethau ar fewnforion i Gymru, Lloegr a'r Alban ar gyfer y gyfres o nwyddau a elwir gyda'i gilydd yn nwyddau iechydol a ffytoiechydol ("SPS").

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n eithrio nwyddau sy'n cyrraedd o ynys Iwerddon rhag y gofyniad am wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol.

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs